

# 80 o syniadau

ar gyfer dathlu  
**Diwrnod y Llyfr**  
yn yr ysgol, ar y  
bws, yn y gwaith, yn y  
gwely, ar gopa mynydd,  
yn y llyfrgell, yn yr  
ysbyty, ar noson allan,  
yn y cylch meithrin,  
ar y traeth, yn y clwb  
ieuenctid, o flaen y tân,  
wrth sefyll mewn ciw ...

1. Cynnal cwis yn seiliedig ar lyfr / awdur penodol.
2. Chwarae gêm o 'Dyfalwch teitl y llyfr' gan ddefnyddio stumiau yn lle geiriau, fel cliwiau.
3. Llenwi bocs esgidiau â chliwiau er mwyn annog pobl eraill i ddyfalwch teitl y llyfr / enw'r cymeriad / awdur.
4. Chwarae gêm o Pictionary teitlau llyfrau / enwau cymeriadau.
5. Cynnal cystadleuaeth ysgrifennu straeon micro (dim mwy na 50 / 100 o eiriau).
6. Cynnal cwis paru'r cloriau llyfrau â lluniau o'r awduron.
7. Chwarae bingo gan ddefnyddio teitlau llyfrau / lluniau o gloriau / enwau awduron.
8. Creu cwis paru'r broliant â theitl / clawr llyfr.
9. Cynnal helpa drysor o gloriau neu deitlau llyfrau.
10. Casglu lluniau o ffrindiau / cyfoedion / athrawon / cyd-weithwyr yn cuddio'u hwynebâu â hoff lyfr o'u plentyndod, neu lyfr sy'n dweud rhywbeth amdanyn nhw. Dyfalwch pwy yw pwy.
11. Cynnal helpa lythrennau â llythyren wahanol ar bob cerdyn. Pwy all sillafu enw llyfr / awdur adnabyddus ar ôl casglu'r holl lythrennau? [\*Gw. Templed 1]
12. Cynnal cystadleuaeth paru ffotograffau o silffoedd llyfrau pobl rydych chi'n eu hadnabod â pherchnogion y silffoedd.




13. Chwarae gêm cysylltu geiriau gan ddefnyddio teitl llyfr / enw cymeriad fel sbardun.

14. Chwarae gêm o Stori Gron ('Consequences') gan ddefnyddio llinell agoriadol llyfr fel sbardun.

## Ysgrifennu

1. Cynhyrchu llyfryn o straeon byrion wedi'u hysgrifennu gan wahanol bobl rydych yn eu hadnabod.
2. Sgriptio golygfa o'ch hoff llyfr, cyn mynd ati i'w pherfformio gan ddefnyddio gwisgoedd, props ac ati.
3. Ysgrifennu cerdd arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr.
4. Creu cymeriad llenyddol newydd sbon, trwy ysgrifennu disgrifiad neu dynnu llun ohono.
5. Creu bwrdd stori / sribed cartŵn o olygfa o'ch hoff lyfr. [\*Gw. Templed 2 a 3]
6. Ysgrifennu adolygiad o lyfr. [\*Gw. Templed 4]
7. Creu llyfr ryseitiau yn seiliedig ar fwydydd o wahanol lyfrau a mynd ati i goginio ambell rysât.
8. Creu chwilair neu groesair yn seiliedig ar eich hoff awdur neu hoff lyfr. [\*Gw. Templed 5]
9. Creu cylchgrawn o adolygiadau llyfrau wedi'u hysgrifennu gan wahanol bobl rydych yn eu hadnabod.
10. Creu comic / llyfr llun-a-gair i blant ifanc.
11. Creu rhestr – '20 o resymau pam y dylem ni ddarllen' – a chreu poster i'w harddangos. [\*Gw. Templed 6]
12. Rhoi'r rhestr '20 o resymau' uchod mewn trefn pwysigrwydd.
13. Creu sloganau yn annog pobl eraill i ddarllen, a'u harddangos ar bosteri. [\*Gw. Templed 6]
14. Cadw dyddiadur darllen.





## Creffft a dylunio

1. Dylunio bathodyn arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr. [\*Gw. Templed 7]

2. Dylunio nod llyfr arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr. [\*Gw. Templed 8]

3. Dylunio tocyn llyfr arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr. [\*Gw. Templed 9]

4. Dylunio label llyfr arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr. [\*Gw. Templed 10]

5. Dylunio bynting arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr. [\*Gw. Templed 11]

6. Efelychu clawr llyfr neu ddylunio clawr newydd i un o'ch hoff lyfrau. [\*Gw. Templed 12]


7. Uwchgylchu hen lyfrau er mwyn creu eitemau newydd.

8. Creu modelau o gymeriadau o lyfrau trwy ddefnyddio ffrwythau a llysiau neu glai.

9. Addurno drws i edrych fel clawr llyfr.

10. Dylunio poster arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr. [\*Gw. Templed 6]

11. Dylunio a chreu man darllen arbennig gan ddefnyddio thema benodol.





## Llafar, perfformio a cherddoriaeth

1. Cyfansoddi cân arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr.
2. Recordio eitem ddychmygol ar gyfer rhaglen radio / podlediad yn trafod llyfrau.
3. Creu Sachau Stori yn cynnwys gwrthrychau a'u defnyddio wrth adrodd stori.
4. Creu rhestr chwarae o ganeuon i wrando arny'n nhw wrth ddarllen.
5. Creu adolygiadau llafar o lyfrau a'u ffilmio.
6. Creu hysbyseb llafar neu rag-lun yn hysbysebu eich hoff lyfr.
7. Darllen darn o'ch hoff lyfr neu eich hoff gerdd ar goedd i gynulleidfa o ffrindiau / cyfoedion / cyd-weithwyr.



1. Gwahodd awdur / bardd / darlunydd i gynnal gweithdy.
2. Creu bocs 'Dewch â Llyfr ac Ewch â Llyfr' er mwyn annog cyfnewid llyfrau, neu gynnal parti cyfnewid llyfrau.
3. Cynnal seremoni wobrwyo ddychmygol ar gyfer hoff lyfrau / awduron eich ffrindiau / cyfoedion / cyd-weithwyr. Ysgrifennu portread o gymeriad o lyfr rydych wedi'i ddarllen.
4. Trefnu ymweliad â siop lyfrau neu lyfrgell leol.
5. Cynnal gwasanaeth Diwrnod y Llyfr arbennig.
6. Cynnal sioe ffasiynau / parêd yn seiliedig ar gymeriadau o lyfrau.
7. Trefnu taith lenyddol er mwyn dilyn ôl traed awdur neu fardd enwog.
8. Cynnal parti neu wledd â thema sy'n ymwneud â llyfr / llyfrau penodol.
9. Cynnal Caffi Darllen er mwyn annog pobl i fwynhau paned, cacen a llyfr.
10. Cynnal ffair neu arwerthiant llyfrau ail-law.
11. Trefnu ymweliad â gwasg argraffu leol er mwyn dilyn y broses o gynhyrchu llyfr.
12. Gofyn i bobl eich noddi am ddarllen am fore / prynhawn /diwrnod cyfan.
13. Pobi cacennau ar thema lenyddol arbennig a'u gwerthu er mwyn codi arian at achos da.
14. Cynnal Gŵyl Lyfrau Fawreddog, yn cynnwys rhai o'r syniadau uchod, er mwyn dathlu llyfrau a darllen.
15. Sefydlu Clwb Darllen.
16. Creu twba lwcus o lyfrau ac annog pawb i fynd â llyfr gartref i'w ddarllen.
17. Creu poster neu daflen wybodaeth yn hysbysebu rhai o'r digwyddiadau uchod. [\*Gw. Templed 6]



1. Llunio cwestiynau i'w holi i'ch hoff awdur neu hoff gymeriad o lyfr.
2. Cyflwyno eich hoff awdur / hoff lyfr / hoff gymeriad mewn cyflwyniad 5 munud.
3. Creu taflen Adnabod Awdur / Adnabod Bardd / Adnabod Darlunydd am eich hoff awdur, fardd neu ddarlunydd. [\*Gw. Templed 13]
4. Creu cwestiynau i'w holi mewn cyfweliad dychmygol gyda chymeriad o lyfr.
5. Tynnu hunlun wrth ddarllen eich hoff lyfr.
6. Dewis eich hoff ddyfyniadau o lyfrau neu gerddi a'u harddangos mewn swigod siarad. [\*Gw. Templed 14]
7. Creu rhestr o 10 llyfr i'w hargymell i wahanol ffrindiau / aelodau o'r teulu.
8. Tynnu llun o'ch anifail anwes yn 'darllen' ei hoff lyfr.
9. Ceisio crynhoi eich hoff lyfr mewn 20, 50 neu 100 gair ar nodyn Post-it.
10. Tynnu hunlun wrth ddarllen mewn lleoliad anarferol.
11. Cynnal cyfweliad ag awdur / bardd / darlunydd dros ebost neu Skype.
12. Tynnu hunlun wrth ddarllen yn eich hoff le.
13. Creu 'Coeden Ddarllen' er mwyn arddangos teitlau hoff lyfrau pobl rydych chi'n eu hadnabod wedi'u cofnodi ar ddarnau o bapur siâp dail. [\*Gw. Templed 15]
14. Creu arddangosfa am eich hoff lyfr / hoff awdur, neu arddangosfa gyffredinol sy'n dathlu llyfrau.
15. Creu pamffled gwybodaeth am eich hoff awdur.
16. Creu rhestr o 5 llyfr yr hoffech eu cael ar ynys bellenig.
17. Cynnal arolwg a chreu rhestr o 10 hoff lyfr eich ffrindiau / cyfoedion / cyd-weithwyr.

